

Cyngor Sir Ynys Môn

Gwasanaeth - Cofrestru Etholiadol ac etholiadau

Swyddogaeth - Busnes y Cyngor

Sut ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae gennych hawl i wybod am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Darllenwch y wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda gan ei bod yn cyfeirio at hawliau ychwanegol y dylech wybod amdanynt.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau ydi'r Rheolwr Data: Gwynne Jones, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n egluro sut mae Swyddog Cofrestru Etholiadol/ Swyddog Canlyniadau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi i gyflwyno gwasanaethau yn effeithlon ac effeithiol

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau yw'r rheolydd data ar gyfer eich gwybodaeth. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn diogelu eich gwybodaeth ac yn penderfynu sut y caiff ei defnyddio. Y term cyfreithiol am ddefnyddio gwybodaeth yw prosesu. Hefyd, y term cyfreithiol am wybodaeth amdanoch chi yw *data personol*.

Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i :

- Wneud canfas blynyddol o bob tŷ er mwyn canfod pob unigolyn cymwys sydd â hawl ei gynnwys ar y gofrestr
- Sicrhau bod pob unigolyn cymwys â'r hawl i sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau yn unol â gofynion statudol
- Sicrhau bod y sawl sydd ar y gofrestr etholwyr â'r hawl i bleidleisio mewn etholiadau a refferenda
- Baratoi cardiau pleidleisio a pheccynnau pleidleisio drwy'r post

Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio at ddibenion nad ydynt yn gydnaws â pham y cafodd ei chasglu yn y lle cyntaf.

Pa wybodaeth a gofnodir?

Rydym yn cadw cofnodion am etholwyr posibl ac etholwyr pendant, manylion am y rhai sydd yn gwneud cais am etholiad, ymgeiswyr a'u hasiantaid, manylion y rhai sydd â ffurflenni enwebu â llofnodion arnynt, staff sydd yn gweithio mewn etholiad. Gall y rhain fod yn gofnodion ysgrifenedig (cofnodion papur) neu wedi'u cadw ar gyfrifiadur (cofnodion electronig).

Fe all y cofnodion hyn gynnwys:

- Manylion sylfaenol amdanoch chi, er enghraifft, enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol, manylion cysylltu (cyfeiriad e-bost/rhif ffôn), llofnod, cenedligrwydd a'ch cyfeiriad blaenorol
- Gwybodaeth am bleidlais absennol (trwy'r post/dirprwy gan gynnwys manylion am eich dirprwy ac unrhyw un sydd wedi eich helpu)

- Ffurflenni cais sydd wedi'u sganio a dyddiadau unrhyw lythyrau
- Nodiadau am unrhyw amgylchiadau perthnasol rydych chi wedi eu datgelu i ni
- Unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref
- Os ydych chi dros 76 oed neu o dan 16/17 oed
- A ydych chi wedi dewis optio allan o fersiwn agored y Gofrestr (i gael rhagor o wybodaeth am y gofrestr Agored www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio)
- Unrhyw wybodaeth ychwanegol y byddwn ei angen gennych chi megis copïau o'ch pasport, cerdyn adnabod Ardal Economaidd Ewropeaidd, tystysgrif priodas neu drwydded yrru
- Cysylltiad gwleidyddol

Mae'n bwysig bod ein cofnodion yn gywir ac yn ddiweddar i'n helpu i sicrhau bod ein staff yn gallu rhoi cymorth, cyngor neu'r gefnogaeth sydd ei angen arnoch. Os nad yw eich gwybodaeth yn gywir, cysylltwch â ni er mwyn i ni gywiro hyn.

Ni fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio. Mae proffilio yn golygu unrhyw fath o brosesu awtomataidd ar eich data personol er mwyn gwerthuso neu ddadansoddi neu ragfynegi pethau amdanoch chi. Gallai hyn gynnwys eich sefyllfa economaidd, iechyd, tueddiadau personol, diddordebau neu ymddygiad.

Ni fydd y Cyngor yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i wlad arall.

Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am fod ganddo ddyletswydd neu hawl gyfreithiol i wneud hynny; neu i berfformio tasg sydd er budd cyhoeddus; neu am eich bod wedi rhoi eich caniatâd. Y term cyfreithiol am hyn yw'r *sail gyfreithiol o brosesu*.

Yn yr achos hwn, mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am fod ganddo ddyletswydd neu hawl gyfreithiol dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985, Deddf Gweinyddu etholiadau 2013 a hefyd rheoliadau perthnasol.

Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau'n casglu ac yn rhannu gwybodaeth gyda chyrrff cyhoeddus a fydd yn cynnwys rhywfaint o ddata personol. Nodwch os gwelwch yn dda y bydd y Cyngor yn casglu ac yn rhannu data gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW) mewn perthynas â'i waith a'i astudiaethau archwilio. Bydd data'n cael ei rannu hefyd yn unol â'r ddyletswydd a nodir yn Adran 33 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Dim ond at ddibenion etholiadol y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch chi'n ei roi i ni. Byddwn yn cadw'r wybodaeth bersonol yn ddiogel a byddwn yn dilyn y ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth bersonol amdanoch chi na gwybodaeth bersonol y byddwch chi'n ei roi am bobl eraill i unrhyw un arall nac i unrhyw sefydliadau arall oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Mae'r Gofrestr Etholwyr yn ddogfen gyhoeddus ac mae modd ei gweld trwy apwyntiad yn unig dan reolaeth lem. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod rhai dogfennau gan gynnwys papurau enwebu ymgeiswyr a hefyd manylion gwariant ar gael i'w harchwilio yn gyhoeddus.

Ar gyfer beth y defnyddir y wybodaeth a'i rannu?

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau i wahanol gyrff e.e. er mwyn gwirio pwy ydych chi, bydd y data y byddwch chi'n ei ddarparu yn cael ei brosesu gan Wasanaeth Cofrestru Etholiadol Unigol Digidol sy'n cael ei reoli gan Swyddfa'r Cabinet. Fel rhan o'r broses hon bydd eich data yn cael ei rannu gydag Adran Gwaith a Phensiynau a chyflenwyr Swyddfa'r Cabinet sydd yn broseswyr data ar gyfer y Gwasanaeth Cofrestru Etholiadol Unigol Digidol. Gallwch ddarllen rhagor o wybodaeth yma: <https://www.registertovote.service.gov.uk/register-tovote/privacy>

- **Argraffwyr neu gyflenwyr (proseswyr) dan gontract sydd yn gweithredu ar ein rhan**
- **Gwasanaethau'r Cyngor at ddibenion gwirio enwau**
- **Manylion ynghylch a wnaethoch chi bleidleisio (ond ddim sut y gwnaethoch chi bleidleisio) i'r rhai sydd â hawl yn ôl y gyfraith i'w dderbyn ar ôl etholiad**
- **Pan fydd iechyd a diogelwch pobl eraill mewn perygl**
- **Pan fydd angen i ni basio gwybodaeth ymlaen yn ôl y gyfraith mewn amgylchiadau arbennig**
- **Atal troseddau neu amau twyll fel rhan o'r Fentrer Twyll Cenedlaethol**

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ddarparu copi llawn o'r gofrestr etholwyr i rai sefydliadau ac unigolion. Ceir wy o wybodaeth yn y linc hon:

https://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0004/162859/List-of-people-entitled-to-be-supplied-with-the-electoral-register-W.pdf

Mae gan unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth gennym ni ddyletswydd gyfreithiol i'w chadw'n gyfrinachol. Ni fyddant yn ei ddefnyddio at unrhyw reswm arall a rhaid iddynt ofalu amdano yn yr un modd.

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i ni i adrodd gwybodaeth benodol i awdurdodau priodol - er enghraifft:

- Pan fo gorchymyn llys ffurfiol wedi cael ei gyflwyno
- I asiantaethau gorfodi'r gyfraith er mwyn atal neu ganfod trosedd
- I'r *Jury Central Summoning Bureau* yn nodi'r unigolion sydd yn 76 oed neu'n hŷn ac nad ydynt bellach yn gymwys ar gyfer gwasanaeth rheithgor

Am faint?

Caiff eich manylion eu cadw a'u diweddarau yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol ac yn unol â chyfnodau cadw statudol. Mae sawl cyfnod cadw statudol ar gyfer y Gofrestr etholwyr a hefyd ar gyfer dogfennau ar gyfer etholiadau. Cedwir y dogfennau yn ddiogel ac yna eu dinistrio unwaith daw'r cyfnod cadw i ben. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau yn cynnal polisi cadw ar wahân- mwy o wybodaeth gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Cyngor Sir Ynys Mon, LL77 7TW.

Categoriâu Arbennig o ddata personol

Mae rhywfaint o'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu yn cael ei ddynodi yn ddata personol categori arbennig. Caiff y wybodaeth ei brosesu am reswm o fudd cyhoeddus sylweddol fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Deddf Gweinyddu Etholiadol 2013 a rheoliadau cysylltiedig. Er mwyn prosesu'r math yma o wybodaeth mae gennym ddogfen polisi ar wahân sydd yn nodi sut bydd yr wybodaeth yma'n cael ei drin. (copi ar gael gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol – polisi yn nodi categorïau arbennig o ddata personol a gedwir ar gael gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol)

Mae gennych hawliau cyfreithiol ac mae'n bwysig eich bod yn gwybod am y rhain.

Mae gennych yr hawl i dderbyn cadarnhad bod gwybodaeth amdanoch yn cael ei ddefnyddio. Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau yn cadarnhau hyn os byddwch yn gofyn amdano.

Mae gennych hawliau ynghylch prosesu eich data personol gan gynnwys yr hawl i wrthwynebu defnydd o'ch e-bost neu fanylion ffôn i bwrpas cofrestru etholiadol. Os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu trwy e-bost neu ar y ffôn gyda chi yna y dylech gysylltu gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sef y Rheolwr Data i drefnu bod hyn yn digwydd. Mae gennych yr hawl i optio allan o'r gofrestr agored ar unrhyw bryd ac mae'n ofynnol i ni ddileu eich manylion o'r fersiwn hon a hysbysu'r cyrff statudol perthnasol wrth ddiweddarau'r gofrestr.

Mae gennych yr hawl i gael copi o'ch data personol. Darperir copïau o'ch data personol i chi o fewn y cyfnod statudol o un mis (neu, os yw darparu eich data personol yn fater cymhleth, fe wneir hyn cyn gynted ag sy'n rhesymol o fewn 3 mis). Darperir eich data personol yn rhad ac am ddim i chi, fodd bynnag, os tybir fod eich cais yn *amlwg yn ddi-sail* neu'n *ormodol*, codir ffi resymol arnoch. Cewch ofyn i gael eich data personol trwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Cyngor.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gael cywiro gwybodaeth amdanoch chi. Gelwir hyn yr hawl am gywiriad. Mae gennych yr hawl i ofyn am i'ch data personol gael ei gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn. Fe wneir hyn o fewn 1 mis, neu os yw eich cais yn fwy cymhleth, o fewn 3 mis.

Yr hawl i gael dileu data personol. Mae gennych yr hawl i ofyn am i ddata personol gael ei ddileu mewn amgylchiadau penodol:

- Pan nad yw'r data personol bellach yn angenrheidiol mewn perthynas â'r diben o'i gasglu/prosesu yn wreiddiol;
- Os ydych yn tynnu eich caniatâd yn ôl;
- Pan ydych yn gwrthwynebu'r prosesu gan y Cyngor ac nad oes unrhyw fudd cyfreithlon sy'n drech na hynny o barhau â'r prosesu;
- Os cafodd y data personol ei brosesu'n anghyfreithlon;
- Pan fo rhaid dileu'r data personol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol; neu
- Pan fo'r data personol yn cael ei brosesu mewn perthynas â chynnis *gwasanaethau cymdeithas wybodaeth* i blant, er enghraifft "app" a ddatblygir yn benodol i blant.

Nid yw'r hawl i gael eich manylion wedi'u dileu yn berthnasol i gynnal y gofrestr etholwyr gan fod gwybodaeth bersonol yn cael ei gadw at ddibenion y gofrestr etholwyr. Ni allwn gydsynio i gais i ddileu manylion o gofrestrau blaenorol/ hanesyddol.

Yr hawl i gyfyngu ar brosesu. Pan honnir fod data yn *anghywir* neu fod yr *hawl i ddileu* wedi cael ei weithredu, gallwch ofyn i'r Cyngor gyfyngu prosesu hyd nes bod gwiriadau dilysu wedi cael eu cwblhau.

Yr hawl i wrthwynebu. Yn ogystal â'r hawl i wrthwynebu bod eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio at farchnata uniongyrchol, mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu sy'n seiliedig ar berfformio tasg er budd cyhoeddus/defnyddio awdurdod swyddogol (yn cynnwys proffilio), a phrosesu at ddibenion ymchwil gwyddonol/hanesyddol ac ystadegau.

Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd. Mae gennych yr hawl i beidio bod yn destun penderfyniadau sy'n seiliedig yn llwyr ar brosesu awtomataidd, yn cynnwys proffilio, sy'n cynhyrchu effeithiau cyfreithiol arnoch chi neu'n effeithio arnoch mewn modd sylweddol.

Sut i gysylltu â ni

Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'n Swyddog Diogelu Data drwy e-bost, post neu ffôn os oes gennych unrhyw ymholiadau am y polisi preifatrwydd hwn neu'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch chi. Gellir cysylltu gyda Swyddog Diogelu Data (SDD) y Cyngor drwy e-bost: DPO@anglesey.gov.uk neu SDD@ynysmon.gov.uk . Rydym yn gobeithio y gall ein SDD ateb unrhyw ymholiad neu ddatrys unrhyw bryder a fydd gennych am y modd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol hefyd yn rhoi i chi'r hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylol yn y man yr ydych yn gweithio, yn byw fel arfer neu ble y digwyddodd unrhyw achos o dorri'r cyfreithiau diogelu data. Yr awdurdod goruchwylol yn y DU yw'r Comisiynydd Gwybodaeth a gellir cysylltu <https://ico.org.uk/concerns>

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer SK9 5AF
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk
Rhif Ffôn: 0303 123 1113.

Cyhoeddwyd y Rhybudd Preifatrwydd ar [17/4/18] a'i ddiweddarau diwethaf ar (24/5/18).

**Fersiwn 2
Dyddiedig 24/5/18**